**Cystadleuaeth Eisteddfod yr Urdd 2015 – Cyfieithu Ysgrifenedig 19-25 oed**

1af – Heledd Fflur Hughes, Aelod Unigol o Gylch Abertawe, Gorllewin Morgannwg
2il – Steffan Bryn Jones, Aelwyd y Waun Ddyfal, Cylch Caerdydd, Caerdydd a'r Fro
3ydd – Ffion Haf Pritchard, Ysgol Gyfun Rhydywaun, Morgannwg Ganol

<u>Beirniadaeth</u>

Yn gyntaf oll, fe garwn longyfarch yr Urdd ar y penderfyniad i gynnwys y gystadleuaeth hon eleni, am y tro cyntaf, ac i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru am ei chreu. Mae'r diwydiant cyfieithu yn mynd o nerth i nerth yng Nghymru, ac felly buddiol dros ben yw rhoi cyfle i gyfieithwyr ifanc arddangos eu gallu. Ar gyfer y gystadleuaeth dewiswyd darn oedd yn trafod 'ffrindiau' ar rwydweithiau cymdeithasol, yn y gobaith y byddai testun cyfoes, perthnasol yn apelio.

Pleser o'r mwyaf yw nodi, nid yn unig bod wyth ymgais wedi dod i law, ond bod pob un o'r wyth yn addawol, ac eisoes wedi datblygu cryn afael ar grefft cyfieithu. Roedd yr iaith ar y cyfan yn lân iawn, ac roedd gallu mynegiannol gwych gan ambell un, gan eu bod wedi cael hyd i ffordd naturiol o gyfleu ystyr y gwreiddiol yn y Gymraeg – nid tasg hawdd yn achos ambell frawddeg.

Cystadleuaeth gref iawn oedd hon, felly, gydag ymgeiswyr teilwng iawn. Daeth 'Yr Heriwr' yn ail a 'Ffion Haf' yn drydydd, y ddau yn agos at y brig, ond y tro hwn, 'Heledd' sy'n fuddugol. Carwn longyfarch 'Heledd' ar gyfieithiad sy'n cyfuno arddull anffurfiol, lithrig, a iaith lân, safonol. Mae hefyd yn llwyddo i ddefnyddio arddull idiomatig heb fod yn or-greadigol ac ymbellhau oddi wrth ystyr y testun gwreiddiol. Mae 'Heledd' eisoes wedi cymryd camau breision tuag at feistroli ei chrefft, a bydd yn gaffaeliad mawr i'r byd cyfieithu yng Nghymru.